MORRIS, WILLIAM ('Rhosynnog '; 1843 - 1922), gweinidog gyda'r Bedyddwyr yng nghapel Noddfa, Treorci, Sir Forgannwg;

Enw: William Morris
Ffugenw: Rhosynnog
Dyddiad geni: 1843
Dyddiad marw: 1922
Rhiant: David Morris
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: William Joseph Rhys

Ganwyd 12 Medi 1843 yn Treboeth, Abertawe; mab David Morris. Dechreuodd ddysgu crefft peiriannydd. Cafodd ei addysg yn academïau Abertawe (G. P. Evans) a Phontyp l. Ordeiniwyd ef yn Nhreorci. Bu'n ysgrifennydd Undeb Bedyddwyr Cymru a Mynwy (1879-98) ac yn llywydd ei gymanfa a'r undeb. Yr oedd yn hyrwyddwr mudiadau dyngarol, dirwestol, ac addysgol yng Nghwm Rhondda; darlithiai lawer, ac yr oedd yn flaenllaw fel gwleidyddwr. Cychwynnodd bump o achosion newydd. Ysgrifennai'n fynych i gylchgronau : *Y Bedyddiwr Cymreig*, *Y Ffenestr*, *Yr Ymwelydd Misol*, *Yr Herald Cenhadol*, etc. Cyhoeddodd *Esboniad or Epistolau Iago a Titus*, a gweithiau eraill. Bu farw 21 Rhagfyr 1922.

Awdur

Y Parchedig William Joseph Rhys, (1880 - 1967)

Ffynonellau

Dyddiadur a Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru, 1909

Seren yr Ysgol Sul yn cynwys bywgraffiaeth, hanesiaeth naturiol, barddoniaeth, cerddoriaeth, &c.;, Medi 1943

Enwogion Presennol y Pulpud Cymreig (1887), i

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 103566248

Wikidata: Q17053621

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu